


gyfeiriad at ei awdl buddugol ym 'Maglona' yn 1898.

O'r diwedd, holais i Wasanaeth Ymholiadau y Llyfrgell Genedlaethol, a chyn bo hir daeth yr ateb caredig bod un bardd â'r ffug-enw 'Penllyn', sef Y Parch. William Evan Jones (ganwyd 1854 – bu farw Gorffennaf 1938) gyda chysylltiad ag ardal Hen Golwyn. Ai fe enillodd y gadair ym Maglona yn 1898? Felly, yn ôl i hen rifynnau'r *Cambrian News* ar feicroffilm am y flwyddyn 1898, ac yno ffeindiais adroddiad hir a manwl ar eisteddfod gadeiriol Machynlleth a gynhaliwyd ar y 9fed o Fedi 1898: Gorsedd ar Gae y Garsiwn, ac Eisteddfod yn Neuadd y Dref. Cadvan oedd yr Arweinydd, a Pedrog oedd Beirniad y Farddoniaeth. Teitl yr awdl oedd 'Ymnertha a Bydd Wr' ('Strengthen Thyself and Show Thyself a Man'); chwech yn cystadlu, a'r buddugwr oedd Adonia 'who turned out to be the Rev. W. E. Jones, Penllyn, Colwyn Bay, who was represented by the Rev. Wnion Evans (Machynlleth) who was accordingly chaired in his place'. Felly, yn ôl y *Cambrian News*, ar yr achlysur hwn o leiaf, dewisodd W. E. Jones Adonia (nid Penllyn) fel ei ffugenw (Penllyn oedd enw ei dŷ).

#### Dwy ysgrif am Y Parch. Penllyn Jones

Ceir ysgrif goffa hir i'r Parch. W. E. Penllyn Jones gan y Parch. T. E. Thomas (Coedpoeth) yn *Y Dysgedydd* (Cyf. 118, Rhif 10, Hydref 1938 tt. 304-309). Hefyd, yn *Dyddiadur yr Annibynwyr am 1939* ceir dwy ysgrif goffa iddo, yr un gan T.E. Thomas a'r llall gan J. Luther Thomas. Dyma grynodeb ohonynt. Ganwyd



Llun 2. Y Parch William Evan, (Penllyn) Jones, yn debyg iawn o ran golwg i'w frawd Llew Tegid.

Mawrth 8, 1854; ei rieni oedd Lewis ac Elizabeth Jones, Ffridd Gyman, plwy' Llanuwchllyn. Yr oedd yn un o ddeg o blant, a'i frawd henaf oedd neb llai na Llew Tegid. Aeth i Goleg Bala yn 1876, ac yn 1880 derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Colwyn. Yn 1884 priododd â Miss Catherine Hughes (Conwy), a ganwyd iddynt ddwy ferch. Roedd yn eisteddfodwr brwd (gw. Llun 2), ac yn gyfansoddwr englynion, cywyddau, pryddestau ac yn arbennig emynau. Ennillodd ddeuddeg o gadeiriau eisteddfodol yng Nghymru, a thlws aur yn Eisteddfod Utica UDA. Cyhoeddodd

nifer o bamffledi neu lyfrau bychain megis *Gemau'r awen* (1892), awdl ar Michael D. Jones (1910), *Y Ddaear Newydd* (cyfrol o bregethau), *Yr Oriau Diddan* (adroddiadau ac ymddiddanion ar destynau moesol a difyrus) (Pwllheli d.d. 1911?) a *Grisiau'r Llwyfan* (casgliad o adroddiadau...i ateb dawn ac oedran pob adroddwr) (Lerpwl d.d. 1930?); hefyd, cyfrol fwy sylweddol o deyrnged i'w frawd sef *Bywgraffiad Llew Tegid gyda detholiad o'i weithiau* (Wrecsam 1931). Tua diwedd ei fywyd colodd ei olwg, ond meistrolodd Braille. Bu farw Gorffennaf 12, 1938, yn 84 oed. Claddwyd ym mynwent Hen Golwyn, gan adael un ferch ar ei ôl, sef Miss Kitty Penllyn Jones.

Disgrifiwyd Penllyn fel 'bardd o fri cenedlaethol ac emynydd eneiniedig' (*Y Dysgedydd* (Medi 1938, t. 286). O gofio hyn oll, mae'n syndod i mi fod Y *Bywgraffiadur Cymreig* wedi anwybyddu'r Parch. W. E. (Penllyn) Jones yn llwyr (heblaw troednodyn moel i'r ysgrif ar ei frawd enwocach Lewis Davies Jones, sef Llew Tegid). Yn fy marn i, mae Penllyn hefyd yn haeddu lle yn *Y Bywgraffiadur*.

Mae'r hen gadair eisteddfodol a enillwyd gan Penllyn yn gyfforddus iawn i eistedd ynddi. 'Nawr rwy'n teimlo'n fwy cyfforddus fyth ynddi, gan wybod pwy oedd Penllyn, a thestun ei awdl fuddugol ym Maglona yn ôl yn 1898.

Ysywaeth, hyd yn hyn rydw i wedi methu darganfod copi o'i awdl fuddugol 'Ymnertha a Bydd Wr'. All darllenwyr Y Casglwr helpu? Os gwelwch yn dda: ffônïwch Bill Linnard ar 029 20843200, neu ebost: billinnard@aol.com

# RAFFL

## CYMOEITHAS BOB OWEN

COFIWCH YRRU'R ARIAN AM Y DDAU  
LYFR RAFFL CYN GYNTED Â PHOSIBL,  
OS GWELWCH YN DDA.



PE BYDDAI POB AELOD YN GWERTHU DAU LYFR,  
MI FYDDAI EU HYMDRECHION YN FODD  
I SICRHAU GWELL SAFON AR  
Y CASGLWR.